

Adroddiad Cydraddoldeb Hiliol 2009

Datganiad Mai 2009

Bob blwyddyn mae Prifysgol Aberystwyth yn paratoi Adroddiad Cydraddoldeb Hiliol Blynyddol a gyflwynir ac a gymeradwyr gan y Cyngor bob mis Gorffennaf.

Bydd peth oedi cyn cyflwyno adroddiad 2009 (y 7fed adroddiad / cyhoeddiad o'i fath) gan fod Cynllun Cydraddoldeb Prifysgol Aberystwyth ar fin cael ei gyhoeddi. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys Cydraddoldeb Hiliol ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor i'w drafod a'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2009.

Bydd adroddiad ar y cyd am gynnydd Prifysgol Aberystwyth gyda materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb (h.y. Hil, Anabledd, Rhywedd, Oedran, Cyfeiriadedd Rhywiol, a Chrefydd/Credo) yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei baratoi gogyfer â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb ym mis Hydref 2009, a bydd y Cyngor yn ei drafod ac yn ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2009.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb yn glynu wrth amodau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, a bydd yn cyflawni'r dyletswyddau penodol sy'n ymwneud ag asesu effeithiau'i bolisiau a'i ofynion monitro (h.y. derbyn myfyrwyr a'u cynnydd, recriwtio a chadw staff a'u datblygiad gyrfaol). Yna, bydd yn cyhoeddi canlyniadau blynyddol sy'n ymwneud â'r cyfrifoldebau hyn.

Ms. Olymbia Petrou
Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Adran Adnoddau Dynol

Mai 2009